Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Prif Swyddog Cyllid,

Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Cymru

Parc Cathays / Cathays Park
Caerdydd / Cardiff
CF10 3NQ

Dyddiad / Date: 22 Ebrill 2025

Annwyl Syr/Madam,

# Derbyniadau'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig (CTC, Ebrill 2024 i Fawrth 2025)

Heddiw byddwn yn anfon e-bost at ein cyswllt yn eich Awdurdod yn cynnwys taenlen ar gyfer yr wybodaeth uchod. Cais am wybodaeth o dan adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yw'r daenlen a dylid ei llenwi a'i dychwelyd erbyn **9 Mai 2025**. Byddwch cystal â nodi nad oes angen copi wedi'i lofnodi bellach.

## Defnyddio'r data

Caiff gwybodaeth ei defnyddio i fonitro cyfraddau casglu ar gyfer y dreth gyngor ac ardrethi annomestig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25. **Caiff cyfraddau casglu'r dreth gyngor eu cyhoeddi mewn Datganiad Ystadegol Cyntaf gan Lywodraeth Cymru ym Mehefin 2025** ac, ynghyd â gwybodaeth am gasglu ardrethi annomestig, cânt eu cyhoeddi ar wefan StatsCymru.

Caiff gwybodaeth o'r ffurflen ei rhoi i gyrff megis y Comisiwn Archwilio; Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Uned Ddata Llywodraeth leol ac adrannau eraill o'r llywodraeth ganolog.

## Cyfeiriad cyswllt

Byddwch cystal ag e-bostio copi o'r daenlen wedi'i llenwi, erbyn 9 Mai 2025 i:

YCLLL.trosglwyddo@llyw.cymru

Diolch ichi ymlaen llaw am eich cydweithrediad wrth lenwi a dychwelyd y ffurflen hon.

Yn gywir,

**Anthony Newby**
0300 025 3963
Local Government Finance Statistics / Ystadegau Cyllid Llywodraeth Leol
Welsh Government / Llywodraeth Cymru